**Atodiad 1: Amserlen y gweithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi Hunanasesiad 2022/23**

- Cynhaliwyd yr adolygiad o Flwyddyn 1 y broses Hunanasesu ym **mis Rhagfyr 2022** ac arweiniodd at gyfres o fân addasiadau i wneud y broses yn fwy effeithlon ym Mlwyddyn 2 a chryfhau cadernid y dystiolaeth a gofnodwyd.
- Cynhaliwyd dadansoddiad y bwrdd gwaith rhwng **Ebrill a Mehefin** i gasglu a dadansoddi'r dystiolaeth oedd ar gael (data mewnol, tystiolaeth allanol a gwaith ymgynghori).
- Cynhaliwyd Gweithdy Hunanasesu cyntaf y Grŵp Arweiniol ar **18 Ebrill** i nodi tystiolaeth, heriau, cyfleoedd i wella a sgoriau.
- Cynhaliwyd Gweithdy'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **24 Ebrill** i gofnodi safbwyntiau Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella.
- Cynhaliwyd ail Weithdy Grŵp Arweiniol wedi hynny ar **18 Mai i adolygu'r dystiolaeth a'r sgorau**, a chymeradwyo Matrics y Prif Lwybrau Ymholi sy'n cynnwys canlyniadau'r ymarfer.
- Cafodd Adroddiad Hunanasesu 2022/23 ei ddrafftio rhwng **Mehefin ac Awst** 2023 gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Cynhaliwyd yr Arolwg Rhanddeiliaid Corfforaethol rhwng **28 Mehefin a 31 Awst**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol **ar 30 Awst** ac fe'i cymeradwywyd i fynd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol/Cabinet ar **19 Medi**.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar **27 Medi** fel rhan o rôl statudol y Pwyllgor yn adolygu ac yn gwneud argymhellion ar y casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r adroddiad i symud ymlaen i'w gyhoeddi ac ni wnaed dim argymhellion ffurfiol.
- Cyflwynwyd adborth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol ar **28 Medi**.
- Diweddarwyd yr Adroddiad Hunanasesu ym **mis Hydref** gyda mân newidiadau fformatio i wella ansawdd yr adroddiad cyn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **6 Tachwedd**.